| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **ADDRODDIAD I** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD** | 12 MAI 2011 |
| **PWNC** | CYNRYCHIOLAETH Y CYNGHORAU CYMUNED A THREF AR Y PWYLLGOR SAFONAU |
| **DEILYDD PORTFOLIO** | MICK GIANNASI |
| **SWYDDOG ARWEINIOL** | LYNN BALL, SWYDDOG MONITRO |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | MEIRION JONES, SOLICITOR TO THE MONITORING OFFICER (EXT: 2563) |

## <u>Cyflwyniad</u>

1. Oherwydd bod tymor mewn swydd y rhan fwyaf o aelodu cyfredol y Pwyllgor Safonau yn dod i ben ar 17 Rhagfyr 2011, mae'n angenrheidiol i ddechrau'r broses o ddewis aelodau i'r Pwyllgor Safonau nesaf. Bydd tymor newydd y swyddi yn cychwyn ar 18 Rhagfyr 2011 ac yn parhau am bedair blynedd. Bydd adroddiad ar wahân yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 12/05/2011 ynglŷn â'r broses recriwtio ar gyfer y Pwyllgor Safonau newydd. Er hynny, mae yna un mater sydd yn golygu newid Cyfansoddiad y Cyngor. Rhaid i hynny gael ystyriaeth gan y Cyngor ac wedyn y Gweinidogion Cymreig. Y mater perthnasol yw cynrychiolaeth Cynghorau Cymuned / Tref ar y Pwyllgor Safonau.

## <u>Y Sefyllfa Gyfredol</u>

2. Mae aelodaeth y Pwyllgor Safonau yn cael ei ddatgan yn Erthygl 9 o'r Cyfansoddiad (2.9.2.1) sef:-

   3 Chynghorydd Sirol
   5 aelod annibynnol
   1 aelod o gyngor cymuned

3. Mae'r tymor mewn swydd yn rhan 2.9.2.2.2 yn y Cyfansoddiad. Mae'r aelod cyngor cymuned cyfredol wedi ei benodi hyd at 17 Rhagfyr 2011 neu hyd oni fydd yn peidio â bod yn aelod o gyngor cymuned o fewn ardal awdurdod lleol Cyngor Sir Ynys Môn p'un bynnag sydd fyrraf.

4. Mae'r gyfraith yn datgan na fydd yr aelod o gyngor cymuned yn cymryd rhan yn nhrafodaethau'r Pwyllgor Safonau pan fo unrhyw fater yn ymwneud â'i gyngor cymuned yn cael ei ystyried.

5. Mae yna ofyniad cyfreithiol "i aelodaeth y pwyllgor safonau awdurdod lleol sydd i gyflawni swyddogaethau mewn perthynas â -

(a) cynghorau cymuned sydd wedi'u lleoli yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw, a
(b) aelodau'r cynghorau cymuned hynny,

gynnwys o leiaf un aelod pwyllgor cymunedol".

**Y Cynigion**

6. Bod nifer cynrychiolwyr Cynghorau Cymuned / Tref ar y Pwyllgor Safonau yn cael ei gynyddu i ddau.

7. Mae'r cynnig yn cael ei wneud er mwyn osgoi gwrthdaro posib rhwng y materion ym mharagraffau 4 a 5 uchod h.y. os buasai cwyn yn cael ei derbyn yn erbyn unrhyw aelod o'r un Cyngor Cymuned / Tref â'r cynrychiolydd ar y Pwyllgor Safonau, ni fyddai'r Pwyllgor yn gallu gwrando ar y gwyn.

**Ymgynghoriad**

8. Mae'r Grŵp Llywio Adferiad, y Pwyllgor Safonau a Bwrdd y Comisiynwyr wedi penderfynu cymeradwyo'r cynnig:-

8.1 Penderfynodd y Grŵp Llywio Adferiad ar 17/02/2011 "cymeradwyo'r awgrym a wnaed gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro ac argymell i'r Pwyllgor Gwaith ac i'r Cyngor Sir y dylid cynyddu'r nifer o gynrychiolwyr Cynghorau Tref / Cymuned ar y Pwyllgor Safonau o 1 i 2".

8.2 Penderfynodd y Pwyllgor Safonau "i newid aelodaeth cynrychiolaeth Cynghorau Cymunedol a Thref ar y Pwyllgor Safonau o 1 aelod i 2".

8.3 Penderfynodd Bwrdd y Comisiynwyr "argymell i'r Cyngor ac i Weinidogion Cymru eu bod yn diwygio Cyfansoddiad y Cyngor trwy gynyddu'r nifer o aelodau sy'n cynrychioli Cynghorau Tref / Cymuned ar y Pwyllgor Safonau i ddau, ac awdurdodi swyddogion i wneud unrhyw newidiadau canlyniadol i'r Cyfansoddiad".

9.1 Mae'r deddfwriaeth yn datgan "rhaid i Bwyllgor Safonau fod yn bwyllgor a chanddo ddim llai na phum aelod na mwy na naw". Mae manylion aelodaeth y Pwyllgor Safonau cyfredol yn ymddangos ym mharagraff 2 uchod a'r cyfanswm presennol yw naw. Felly, er mwyn cael dau Gynghorydd Tref / Cymuned, byddai'n angenrheidiol gostwng nifer naill ai'r Cynghorwyr Sir neu'r aelodau annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.

9.2 Mae aelodaeth Pwyllgor Safonau yn gorfod bod naill ai -

i. Lle mae cyfanswm aelodau'r Pwyllgor Safonau yn eilrif, rhaid i o leiaf hanner y rhif hwnnw fod yn aelodau annibynnol.

ii. Os yw cyfanswm aelodau Pwyllgor Safonau yn odrif, rhaid i'r mwyafrif o'r rhif hwnnw fod yn aelodau annibynnol.

9.3 Yr anghenion cworwm yw:-

i. Bod o leiaf dri aelod o'r pwyllgor yn bresennol, gan gynnwys y Cadeirydd; a

ii. Bod o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y Cadeirydd) yn aelodau annibynnol.

9.4 Felly cynigir bod aelodaeth y Pwyllgor Safonau yn cael ei newid fel ei fod yn naill ai:-

9.4a 2 Gynghorydd Sirol, 5 aelod annibynnol a 2 Gynghorydd Cymuned / Tref, neu
9.4b 2 Gynghorydd Sirol, 4 aelod annibynnol a 2 Gynghorydd Cymuned / Tref

**Argymhelliad**

Gofynnir i'r Cyngor argymell i'r Gweinidogion Cymreig y bydd aelodaeth y Pwyllgor Safonau, yn weithredol o 18/12/11, NAILL AI yn:-

1. 2 Gynghorydd Sirol, 5 aelod annibynnol a 2 Gynghorydd Cymuned / Tref, NEU

2. 2 Gynghorydd Sirol, 4 aelod annibynnol a 2 Gynghorydd Cymuned / Tref